



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



## Cystadleuaeth Arwyddion 20mya i Ysgolion

Ym mis Medi 2023 bydd y cyfyngiad cyflymder ar ffyrdd lle mae pobl yn byw, neu'n cerdded a beicio'n rheolaidd, yn newid. Bydd terfyn cyflymder diodyn newydd o 20mya (yn lle 30mya nawr) yn dod i mewn. Bydd y terfyn cyflymder newydd yn helpu i leihau gwrthdrawiadau ar ein ffyrdd, yn gwneud ein strydoedd yn fannau brafiach i fod ac yn annog mwy o bobl i gerdded a beicio.

Cymru yw'r wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i wneud y newid i 20mya ac fe allwch chi fod yn rhan o'r newid. Rydym yn gofyn ichi ddefnyddio'ch sgiliau artistig i ddylunio arwydd a allai gael ei weld ledled Cymru! Mae angen i'r arwydd newydd yma, sydd i'w ddefnyddio tu allan i ysgolion, atgoffa gyrwyr mor bwysig yw gyrru o fewn y terfyn cyflymder o 20mya, gan helpu i leihau'r perygl i blant a theuluoedd sy'n defnyddio'r ffordd.

### Gwobrau i'w hennill...

Bydd y dyluniad buddugol\* yn ennill gwobr o £250 gan Ddiogelwch Ffyrdd Cymru a chaiff yr enillydd wahoddiad i dderbyn y wobr yn ystod ymweliad arbennig â'r Senedd ym Mae Caerdydd.\*\*

Bydd ail wobr ar gael hefyd i bedwar cystadleuydd arall; dwy wobr o £100 i ddisgyblion ysgolion cynradd a dwy wobr o £100 i ddisgyblion ysgolion uwchradd.

### Y rheolau

Dyma'r canllawiau i'ch helpu i greu'ch dyluniad:

- ②0 I wneud i'ch dyluniad sefyll allan, defnyddiwch liwiau llachar a chyferbyniol.
- ②0 Rhaid i'r gwaith celf fod yn A4 o ran ei faint a rhaid gosod y tudalen ar draws, nid ar i fyny.
- ②0 Peidiwch â seilio'ch gwaith celf ar yr arwydd 20mya coch a gwyn presennol, ond mae croeso i chi gynnwys y rhif '20'.
- ②0 Gall eich dyluniad gael ei greu drwy ddefnyddio fformatau digidol ond peidiwch â defnyddio unrhyw ddelweddau stoc na ffeiliau sydd wedi'u lawrlwytho o'r rhyngwyd. Rhowch rwydd hynt i'ch dychymyg a gofalwch fod eich dyluniad yn gwbl wreiddiol (fel nad yw'n dod o dan y deddfau hawlfraint!).
- ②0 Cofiwch fod arwyddion ffyrdd wedi'u cynllunio i gael eu darllen gan yrrwr mewn cerbyd sy'n symud, felly bydd y beirniaid yn chwilio am y dyluniad cliraf, mwyaf creadigol y bydd gyrwyr yn gallu ei weld a'i ddeall heb dynnu eu sylw oddi ar y ffordd o'u blaenau.
- ②0 Gall disgyblion yng Nghymru o Flwyddyn 5 i 6 (cynradd) a Blwyddyn 7 i 8 (uwchradd) gynnig yn y gystadleuaeth (ond dim ond un cynnig y gallwn ei dderbyn gan bob unigolyn).

### Ble i anfon eich cynnig

Anfonwch eich cynnig i Diogelwch Ffyrdd Cymru, 2 Cwrt-y-Parc, Parc Tŷ Glas, Caerdydd, CF14 5GH neu [communication@roadsafetywales.org.uk](mailto:communication@roadsafetywales.org.uk) erbyn dydd Gwener 20 Ionawr 2023.

Edrychwn ymlaen at gael eich cynnig!

\*Mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i wneud gwelliannau i'r dyluniad buddugol i'w wneud yn addas i'w ddefnyddio ar arwydd traffig. Trwy gystadlu yn y gystadleuaeth hon, byddwch yn aseino i Lywodraeth Cymru yr hawl i ddefnyddio'ch dyluniad (gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol) ar arwyddion traffig ac at ddibenion hyrwyddo eraill.

\*\* Bydd costau teithio yn cael eu talu gan Ddiogelwch Ffyrdd Cymru



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



## School Sign Competition for 20mph

In September 2023 the speed limit on roads where people live, or regularly walk and cycle will change. A new default speed limit of 20mph (instead of 30mph now) will come in. The new speed limit will help reduce collisions on our roads, make our streets nicer places to be and encourage more people to walk and cycle.

Wales is the first nation in the UK to make the change to 20mph and you can be part of it. We are asking you to use your artistic skills to design a sign which could be seen all across Wales! This new sign, to be used outside schools, needs to remind drivers of the importance of driving within the 20mph speed limit, helping reduce the danger to children and families using the road.

### Prizes to be won...

The winning design\* will receive a prize of £250 from Road Safety Wales and the winner will be invited to receive their prize during a special visit to the Senedd, the home of the Welsh Government in Cardiff Bay.\*\*

There will also be prizes for 4 runners up; 2 prizes of £100 for primary school pupils and 2 prizes of £100 for secondary school pupils.

### The rules

Here are the guidelines to help you create your design:

- ②0 To make your design stand out, please use bright and contrasting colours.
- ②0 Artwork must be A4 in size and of landscape orientation.
- ②0 Please don't base your artwork on the existing red and white 20mph sign - but you are welcome to include the number '20'.
- ②0 Your design can be created using digital formats but please don't use any stock images or files downloaded from the internet. Let your imagination run wild and make sure your design is completely original (so that it is not subject to copyright laws!).
- ②0 Just remember that road signs are designed to be read by a driver in a moving vehicle, so the judges will be looking for the clearest, most creative design that drivers will be able to see and understand without being distracted from the road ahead.
- ②0 Pupils in Wales from Year 5 to 6 (primary) and Year 7 to 8 (secondary) can enter the competition (but we can only accept one entry per person).

### Where to send your entry

Please send your entry to Road Safety Wales, 2 Cwrt-y-Parc, Parc Ty Glas, Cardiff, CF14 5GH or [communication@roadsafetywales.org.uk](mailto:communication@roadsafetywales.org.uk) by Friday 20th January 2023.

We look forward to receiving your entry!

\*The Welsh Government reserves the right to make amendments to the winning design to make it suitable for use on a traffic sign. By entering this competition, you assign to Welsh Government the right to use your design (with any modifications we need to make) on traffic signs and for other promotional purposes.

\*\* Travel expenses will be covered by Road Safety Wales